# Estyn cap Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU y tu hwnt i 2030

Ymateb ar y cyd Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon.

Rhagfyr 2025

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gov.uk.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn:
emissions.trading@energysecurity.gov.uk

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol 4
Cefndir 4
Crynodeb: Estyn UK ETS y tu hwnt i 2030 5
Crynodeb: Hyd Cam II UK ETS 6
Crynodeb: Bancio Rhwng Camau 6
Manylion Ymateb yr Awdurdod 7
Estyn UK ETS y tu hwnt i 2030 7
Crynodeb o'r Cynnig 7
Crynodeb o'r Ymatebion 7
Ymateb yr Awdurdod 8
Hyd Cam II UK ETS 9
Crynodeb o'r Cais am Farn 9
Crynodeb o'r Ymatebion 9
Ymateb yr Awdurdod 10
Bancio Rhwng Camau 11
Crynodeb o'r Cynnig 11
Crynodeb o'r Ymatebion 11
Ymateb yr Awdurdod 11
Y Camau Nesaf 13
Taflwybr Cap Cam II UK ETS 13

# Crynodeb Gweithredol

## Cefndir

Mae'r ddogfen hon yn nodi ymateb Awdurdod UK ETS i'r ymgynghoriad cyhoeddus *Estyn Cap UK ETS y tu hwnt i 2030*[1].

Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar:

- Estyn UK ETS i ail gam o 1 Ionawr 2031 ymlaen.
- Hyd Cam II ôl-2030.
- A ddylid caniatáu bancio lwfansau allyriadau'r DU (UKA) rhwng Cam I a Cham II ôl-2030 o'r Cynllun.

Mae Cynllun Masnachu Allyriadau (ETS) y DU yn gynllun capio a masnachu a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2021. Mae'r Cynllun yn rhoi prisio carbon wrth wraidd yr ymagwedd ledled y DU at ddatgarboneiddio. Mae'n gosod terfyn cyffredinol ar allyriadau o fewn ei gwmpas (y cap) ac yn sefydlu marchnad ar gyfer lwfansau allyriadau sy'n caniatáu iddynt gael eu masnachu rhwng cyfranogwyr. Mae UK ETS yn allweddol i adeiladu economi ddatgarboneiddio ledled y DU, gan gyflawni trawsnewidiad cynaliadwy ac economaidd effeithlon i sero net, a dangos arweinyddiaeth fyd-eang y DU ar brisio carbon.

Mae taflwybr y cap tuag i lawr yn gyrru gostyngiadau allyriadau yn y sectorau dan sylw tuag at dargedau hinsawdd uchelgeisiol ar daflwybr pendant, tra bod y farchnad lwfansau yn rhoi'r hyblygrwydd i fusnesau a gwmpesir gan y Cynllun benderfynu sut i ddatgarboneiddio yn fwyaf effeithiol am y gost leiaf.

Bob blwyddyn, rhaid i fusnesau a gwmpesir gan y Cynllun ildio lwfansau i dalu am eu hallyriadau adroddadwy. Mae cyfranogwyr yn cael lwfansau am ddim a / neu'n prynu lwfansau allyriadau mewn arwerthiant, y gallant wedyn fasnachu ynddynt gyda chyfranogwyr eraill yn ôl yr angen. Mae masnachu lwfansau ar y farchnad yn pennu eu pris ac yn caniatáu i gyfranogwyr ddatgarboneiddio lle mae'n rhataf gwneud hynny.

Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd yr Awdurdod lwybr hirdymor Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU[2]. Cadarnhaodd y llwybr y bwriad i barhau â'r Cynllun tan o leiaf 2050, yn amodol ar ymgynghoriad. Ymrwymodd hefyd i sicrhau bod y Cynllun yn parhau i gydredeg â thaflwybr sero net a darparu sicrwydd hirdymor i gyfranogwyr i gefnogi buddsoddiadau mawr eu hangen mewn datgarboneiddio.

[1] https://www.gov.uk/government/consultations/extending-the-uk-emissions-trading-scheme-cap-beyond-2030.
[2] https://www.gov.uk/government/publications/uk-emissions-trading-scheme-long-term-pathway.

Cymerodd yr Awdurdod y cam nesaf i gyflawni'r ymrwymiad hwnnw gydag ymgynghoriad cyhoeddus *Estyn Cap UK ETS y tu hwnt i 2030*, a oedd ar agor am wyth wythnos rhwng 12 Chwefror a 9 Ebrill 2025[3]. Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, ac mae'r safbwyntiau a'r dystiolaeth a ddarparwyd wedi llywio penderfyniadau'r Awdurdod fel yr amlinellir yn y ddogfen hon.

**Cysylltu cynlluniau ETS y DU a'r UE**

Mae'r DU a'r UE wedi cytuno i weithio tuag at gysylltu UK ETS a System Masnachu Allyriadau'r UE (EU ETS). Mae'r testun Dealltwriaeth Gyffredin yn sefydlu y bydd llwybr capio a lleihau'r DU yn cael ei lywio gan rwymedigaethau Deddf Newid Hinsawdd y DU a Chyfraniadau a Bennir yn Genedlaethol ac y dylent fod o leiaf yr un mor uchelgeisiol â llwybr capio a lleihau'r UE. Bydd hyn yn destun trafodaethau sydd i ddod.

**Cap Cam II UK ETS – Tystiolaeth a Dadansoddiad**

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys dadansoddiad rhagarweiniol sy'n cwmpasu amserlenni cynllunio buddsoddi cwmnïau ac effeithiau peidio â chaniatáu bancio lwfansau rhwng camau I a II EU ETS. Mae'r penderfyniadau a amlinellir yn yr ymateb hwn wedi ystyried y dystiolaeth hon ochr yn ochr â'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Wrth i ni symud ymlaen ag estyn cap UK ETS y tu hwnt i 2030 (gweler y Camau Nesaf, isod), bydd Ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad ail gam ar daflwybr cap Cam II yn cynnwys atodiad dadansoddol ac asesiad effaith llawn. Bydd hyn yn cynnwys manylion am daflwybr y cap a dadansoddiad o'i effeithiau disgwyliedig. Bydd rhanddeiliaid yn cael cyfle i roi mewnbwn pellach ar yr agweddau hanfodol hyn fel rhan o'r ymgynghoriad ail gam, gan helpu i lunio dyluniad cynllun Cam II cadarn ac effeithiol.

## Crynodeb: Estyn UK ETS y tu hwnt i 2030

- Mae'r Awdurdod wedi penderfynu ymestyn UK ETS i Gam II o 2031 ymlaen.
- Cyn deddfu i estyn y Cynllun, bydd yr Awdurdod yn ymgynghori ar fanylion proffil cap Cam II manwl (gweler yr adran amserlenni ar ddiwedd y ddogfen hon).
- Ni fydd ymgynghoriad ar broffil cap Cam II yn golygu newidiadau i daflwybr cap Cam I UK ETS. Mae agweddau eraill ar ddyluniad cynllun UK ETS yn parhau i fod yn destun adolygiad.

[3] https://www.gov.uk/government/consultations/extending-the-uk-emissions-trading-scheme-cap-beyond-2030.

## Crynodeb: Hyd Cam II UK ETS

- Mae'r Awdurdod wedi penderfynu y bydd Cam II UK ETS yn rhedeg rhwng 1 Ionawr 2031 a 31 Rhagfyr 2040, sef cyfnod o 10 mlynedd.
- Bydd cyfnod 10 mlynedd yn sicrhau bod signalau'r farchnad yn parhau i fod yn gyson â nodau datgarboneiddio hirdymor, gan alluogi cynllunio strategol a buddsoddiad datgarboneiddio hirdymor yn y sectorau o fewn y cwmpas.
- Mae'r Awdurdod yn cydnabod pryderon a godwyd ynghylch yr angen am hyblygrwydd, ymatebolrwydd, a'r gallu i gyfrif am ansicrwydd. Roedd Cam I UK ETS yn cynnwys dau bwynt adolygu i asesu dyluniad a gweithrediad y Cynllun. Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr achos dros bwyntiau adolygu yn ystod Cam II, a bydd yn ymgynghori ar eu cwmpas, eu hamlder a'u hamseru maes o law.

## Crynodeb: Bancio Rhwng Camau

- Mae'r Awdurdod wedi penderfynu caniatáu bancio lwfansau rhwng Camau I a II UK ETS.
- Fel rhan o broses gosod capiau Cam II, bydd yr Awdurdod yn asesu'r rhyngweithiadau rhwng lwfansau wedi'u bancio a thargedau allyriadau'r DU, yn ogystal ag ystyried unrhyw effeithiau ar gyllidebau carbon yn sgil bancio UKA.

# Manylion Ymateb yr Awdurdod

## Estyn UK ETS y tu hwnt i 2030

### Crynodeb o'r Cynnig

Ar hyn o bryd mae Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 yn darparu i UK ETS weithredu tan ddiwedd y cyfnod masnachu presennol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2021 ac yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2030 (Cam I UK ETS)[4]. Er mwyn sicrhau bod UK ETS yn parhau i weithredu ar ôl 2030, darperir ar gyfer Cam II UK ETS mewn deddfwriaeth.

Mae estyn y Cynllun y tu hwnt i 2030 yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pris priodol yn parhau i gael ei gymhwyso i allyriadau o fewn sectorau a gwmpesir gan y Cynllun. Mae deddfu ar gyfer Cam II UK ETS yn golygu y gall UK ETS barhau i yrru datgarboneiddio cost leiaf o fewn y sectorau dan sylw trwy'r 2030au a'r tu hwnt, gan gefnogi'r trawsnewidiad tuag at economi sero net ledled y DU.

Felly, ymgynghorodd yr Awdurdod ar gynnig i ddeddfu ar gyfer estyn UK ETS y tu hwnt i ddiwedd Cam I ar 31 Rhagfyr 2030, ac i Gam II o 1 Ionawr 2031.

### Crynodeb o'r Ymatebion

O'r 65 o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, roedd 50 (77%) o blaid estyn UK ETS, roedd 10 (15%) yn erbyn, ac roedd 5 (8%) heb fynegi barn, neu wedi dewis cadw eu hymateb yn ôl.

Roedd 35 o'r 50 o ymatebion yn mynegi cefnogaeth i estyn y Cynllun, yn cyfeirio at rôl UK ETS o fewn ymagwedd y DU gyfan at sero net, a'r angen am gymhelliant i'r sectorau dan sylw ddatgarboneiddio eu gweithrediadau. Ymhlith y themâu allweddol eraill oedd yr angen am sicrwydd a pharhad hirdymor ar gyfer y sectorau dan sylw a'r farchnad ehangach, ochr yn ochr â rôl masnachu allyriadau wrth hwyluso cynllunio hirdymor a buddsoddiad datgarboneiddio gan gyfranogwyr.

O'r 15 ymateb a gadwyd neu a oedd yn erbyn estyn y Cynllun, cyfeiriodd 14 o 15 at yr anawsterau sy'n gysylltiedig ag asesiad empirig o effeithiau mesuradwy ac effeithiolrwydd y cynllun. Cododd 12 o'r 15 bryderon ynghylch risgiau dad-ddiwydiannu posibl o fewn y sectorau dan sylw, a phwysleisiodd yr un nifer (12 o 15) yr angen i gynnal cystadleurwydd y DU mewn marchnadoedd rhyngwladol ac atal dadleoli carbon.

[4] https://www.legislation.gov.uk/uksi/2020/1265/contents/made.

Fe wnaethom hefyd ofyn am gyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar estyn y Cynllun ar ôl 2030. Argymhellodd y Pwyllgor a) y dylid estyn UK ETS a b) bod dyluniad y Cynllun yn ddigon cadarn i yrru datgarboneiddio yn y sectorau dan sylw yn gyson â thaflwybr allyriadau sero net[5].

## Ymateb yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu ymestyn UK ETS i Gam II o 2031 ymlaen.

Mae hyn yn cyd-fynd â'r safbwyntiau a fynegwyd gan fwyafrif yr ymatebwyr, a nododd fanteision UK ETS o ran cymell y sectorau dan sylw i ddatgarboneiddio eu gweithrediadau, tra'n rhoi'r hyblygrwydd i gyfranogwyr wneud hynny am y gost leiaf.

Fel yr amlinellir yn llwybr hirdymor Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU 2023, bydd estyn y Cynllun i Gam II ôl-2030 yn sicrhau y gall UK ETS barhau i ddarparu'r manteision hyn dros y 2030au a'r tu hwnt. Felly, bydd y Cynllun yn parhau i yrru datgarboneiddio economaidd effeithlon o fewn y sectorau dan sylw y tu hwnt i 2030, sy'n hanfodol i gyflawni targedau sero net hirdymor sy'n rhwymol yn gyfreithiol ledled y DU gyfan[6].

Cyn deddfu i estyn y Cynllun, bydd yr Awdurdod yn ymgynghori ar fanylion proffil cap Cam II manwl (gweler yr adran Camau Nesaf ar ddiwedd y ddogfen hon). Ni fydd ymgynghoriad ar broffil cap Cam II yn golygu newidiadau i ddyluniad y cynllun na thaflwybr cap Cam I UK ETS.

[5] https://www.theccc.org.uk/publication/letter-advice-on-extending-the-uk-ets-beyond-2030/.
[6] https://www.gov.uk/government/publications/uk-emissions-trading-scheme-long-term-pathway/the-long-term-pathway-for-the-uk-emissions-trading-scheme.

# Hyd Cam II UK ETS

## Crynodeb o'r Cais am Farn

Mae angen i hyd Cam II gydbwyso'r taflwybr cap hirdymor sy'n ofynnol ar gyfer cynllunio rhanddeiliaid a hyder y farchnad gyda'r hyder y gallwn fodelu'r taflwybrau allyriadau a ragwelir sy'n sail i benderfyniadau capio ETS.

Ymgynghorodd yr Awdurdod ar dri opsiwn dangosol ar gyfer hyd Cam II: 7 mlynedd, 10 mlynedd neu 12 mlynedd. Ceisiodd yr ymgynghoriad gasglu barn rhanddeiliaid am yr opsiynau hyn (ac unrhyw rai eraill a awgrymwyd gan ymatebwyr) er mwyn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a datblygu polisi ar gap Cam II.

## Crynodeb o'r Ymatebion

Mynegodd 31 o'r 65 o ymatebion (48%) ffafriaeth glir ar gyfer Cam II UK ETS 10 mlynedd, tra bod 5 arall (8%) yn rhestru cyfnod 10 mlynedd fel ffafriaeth ar y cyd a mynegodd 3 ymateb arall (5%) ffafriaeth i gydredeg â Cham V System Masnachu Allyriadau'r UE (EU ETS). Mae Cam IV EU ETS yn rhedeg am 10 mlynedd rhwng 2021 a 2030; nid yw hyd Cam V wedi'i bennu eto.

Mynegodd 11 o 65 ymateb (17%) ddim ffafriaeth o ran hyd y cam, tra bod 7 ymateb (11%) yn mynegi ffafriaeth ar gyfer Cam II 12 mlynedd, 5 (8%) ar gyfer Cam II 7 mlynedd, ac un ar gyfer Cam II 5 mlynedd. Yn ogystal, mynegodd un ymateb ffafriaeth i Gam II fod 'mor fyr â phosibl', ac roedd un ymateb yn mynegi'r gwrthwyneb sef y dylai Cam II fod 'mor hir â phosibl'.

Cyfeiriodd 41 (63%) o'r ymatebion at sicrwydd ac eglurder hirdymor fel blaenoriaethau canolog, sy'n allweddol i gefnogi sefydlogrwydd y farchnad lwfansau, ac i alluogi cynllunio buddsoddi datgarboneiddio gan fusnesau a buddsoddwyr.

Cyfeiriodd 22 (34%) o'r ymatebion at bwysigrwydd hyblygrwydd, yr angen am gyfleoedd i addasu a newid dyluniad y Cynllun yn ôl y gofyn, a'r angen i wneud yr ETS yn fwy ymatebol i ffactorau technolegol, isadeiledd ac economaidd ehangach. Roedd ymatebion sy'n pwysleisio'r angen am hyblygrwydd ac ymatebolrwydd weithiau'n ffafrio cyfnod byrrach, ond yn amlach yn ffafrio cyfnod hirach (e.e. 10 mlynedd) gydag adolygiadau canol cam cynhwysfawr. Argymhellwyd y dull hwn hefyd gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, a oedd yn cynghori cyfnod 10 mlynedd ac adolygiad cynhwysfawr canol cam o bolisi cap, cwmpas a marchnadoedd y cynllun.

## Ymateb yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu y bydd Cam II UK ETS yn rhedeg rhwng 1 Ionawr 2031 a 31 Rhagfyr 2040, sef cyfnod o 10 mlynedd.

Mae Cam II 10 mlynedd sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2031 yn darparu sicrwydd hirdymor i gyfranogwyr. Mae hefyd yn darparu cysondeb a pharhad gyda Cam I ETS, yn unol â'r dewisiadau a fynegwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd.

Bydd cyfnod 10 mlynedd yn sicrhau bod signalau'r farchnad yn parhau i fod yn gyson â nodau datgarboneiddio hirdymor, gan alluogi cynllunio strategol a buddsoddiad datgarboneiddio hirdymor yn y sectorau o fewn y cwmpas.

Mae'r Awdurdod yn croesawu cefnogaeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar gyfer Cam II 10 mlynedd ac yn nodi'r achos dros bwyntiau adolygu cynhwysfawr o fewn y cam i asesu dyluniad y cynllun a lefel y cap, er mwyn sicrhau aliniad â thargedau sero net ehangach.

# Bancio Rhwng Camau

## Crynodeb o'r Cynnig

Cynigiodd yr Awdurdod y dylid caniatáu bancio rhwng Camau I a II UK ETS. Mae bancio yn cyfeirio at yr arfer o brynu lwfans mewn blwyddyn benodol i'w ildio mewn blynyddoedd dilynol ac fe'i caniateir yng Ngham I UK ETS. Yn gyfatebol, mae bancio rhwng camau yn cyfeirio at yr arfer o ddal lwfansau a brynwyd yn ystod cam penodol o ETS i'w hildio neu eu masnachu mewn cam dilynol.

Mae bancio lwfansau rhwng camau wedi'i ymgorffori yn y rhan fwyaf o gynlluniau masnachu allyriadau aeddfed, gan gynnwys pontio EU ETS o Gam III (2013-2020) i Gam IV (2021-2030). Amlinellodd yr ymgynghoriad risgiau i sefydlogrwydd y farchnad o fewn y Cynllun a gweithrediad cyffredinol y cynllun pe na bai bancio rhwng camau yn cael ei ganiatáu. Gallai peidio â chaniatáu bancio rhwng camau hefyd gynyddu allyriadau Cam I o fewn y sectorau dan sylw, gan y gallai cyfranogwyr gynyddu allyriadau ar ddiwedd y 2020au a 2030 er mwyn defnyddio eu lwfansau Cam I cyn iddynt ddod yn annilys.

## Crynodeb o'r Ymatebion

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn bennaf yn cefnogi caniatáu bancio lwfansau rhwng Cam I a Cham II UK ETS, gyda 61 o'r 65 o ymatebion (94%) yn mynegi'r safbwynt hwn. Nid oedd y 4 ymateb arall yn rhoi eu barn am y cynnig.

Roedd ymatebion yn cyfeirio'n aml at rôl bancio rhwng camau wrth gynnal sefydlogrwydd prisiau dros Gam I, yn ogystal â'r manteision tymor byr a hirdymor sy'n gysylltiedig ag estyn darpariaethau hyblygrwydd presennol y Cynllun. Roedd ymatebwyr yn ystyried yn helaeth fod yr hyblygrwydd cynyddol hwn i gyfranogwyr yn allweddol i hwyluso cynllunio a buddsoddiad datgarboneiddio hirdymor.

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi nodi ei fod yn cefnogi bancio lwfansau rhwng Cam I a Cham II, ar yr amod bod cap Cam II yn cael ei osod ar daflwybr sy'n cyfrif yn ddigonol i'r lwfansau gael eu cario drosodd.

## Ymateb yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu caniatáu bancio lwfansau rhwng Camau I a II UK ETS.

Fel uchod, roedd mwyafrif helaeth yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cytuno â'r cynnig hwn. Byddai caniatáu bancio rhwng Cam I a Cham II UK ETS yn estyn darpariaethau hyblygrwydd presennol y Cynllun ac yn rhoi mwy o gyfle i gyfranogwyr fanteisio ar opsiynau lleihau tymor hwy, gan hwyluso datgarboneiddio cost leiaf yn well. Byddai hyn yn caniatáu i UK ETS ysgogi

buddsoddiad datgarboneiddio hirdymor yn fwy effeithiol yn y sectorau a gwmpesir gan y Cynllun, a chyflawni manteision darganfod prisiau carbon a yrrir gan y farchnad.

Fel rhan o'r broses gosod cap Cam II, bydd yr Awdurdod yn asesu'r rhyngweithiadau rhwng lwfansau wedi’u bancio a thargedau allyriadau'r DU, ac yn ystyried unrhyw effeithiau ar gyllidebau carbon yn sgil bancio UKA.

# Y Camau Nesaf

## Taflwybr Cap Cam II UK ETS

Mae Awdurdod UK ETS yn cydnabod bod angen darparu signal a sicrwydd datgarboneiddio hirdymor i gyfranogwyr. Byddwn yn ceisio ymgynghori eto ar daflwybr penodol ar gyfer cap Cam II cyn gynted â phosibl. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, byddwn hefyd yn ceisio barn am agweddau eraill ar ddyluniad cynllun Cam II yn ôl y gofyn.

Bydd angen alinio’r taflwybr cap Cam II arfaethedig â chynlluniau datgarboneiddio traws-economi ar draws y pedair cenedl. Bydd llwybr sero net ledled y DU yn hanfodol i'r dull hwn, a byddwn yn anelu at ymgynghori ar broffil y cap ôl-2030 ochr yn ochr â chyhoeddi'r cynllun cyflawni ar gyfer cyfnod Cyllideb Garbon 7 neu yn fuan ar ôl ei gyhoeddi. Bydd hyn yn caniatáu inni seilio ein cynigion ar daflwybr allyriadau ar gyfer y sectorau dan sylw sy'n cyd-fynd â chyllidebau carbon y DU a sero net. Anelwn at gynnwys dadansoddiad ychwanegol i gefnogi ymatebion i'r ymgynghoriad, gan amlinellu'r sail ddadansoddol i’r ystod o daflwybrau yr ydym yn eu hystyried, ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg yn sgil y taflwybrau hynny.

Bydd y broses ymgynghori ail gam gyfan, gan gynnwys ymateb yr Awdurdod, yn digwydd mewn digon o bryd cyn dechrau Cam II arfaethedig ar 1 Ionawr 2031 i ddarparu'r sicrwydd gofynnol i gyfranogwyr.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael o: https://www.gov.uk/government/consultations/extending-the-uk-emissions-trading-scheme-cap-beyond-2030

Os oes angen fersiwn o'r ddogfen hon arnoch mewn fformat mwy hygyrch, anfonwch e-bost at alt.formats@energysecurity.gov.uk. Dywedwch wrthym ba fformat sydd ei angen arnoch. Bydd yn ein helpu os dywedwch pa dechnoleg gynorthwyol rydych yn ei ddefnyddio.